

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Iau,  
10 Ionawr 2019 yn Neuadd Carmel

**Minutes of the Finance Committee held Thursday 10 January 2019 at  
Carmel Village Hall**

## **Yn bresennol / Present**

Cynghorwyr Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ; Gerwyn Owen; David C Davies; Bryn Williams;  
Eddie Willcox; Hywel J Owen  
David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Cyllid y Cyngor.

## **1 Croeso'r Cadeirydd – Chairman's Welcome**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Cyng. Gerwyn Owen sef Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Croesawodd pawb i'r cyfarfod. Mynegodd cydymdeimlad gyda teulu Cyng. Robert Isaac Jones, cyn aelod o'r Cyngor hwn a fu farw yn ddiweddar.

## **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences**

Pawb yn bresennol.

## **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000**

Ni wnaeth yr un aelod na'r Clerc ddatgan buddiant / No declarations made by any member on any items on the agenda

## **4 Cyllideb 2019-20 / 2019-20 Budget**

Adroddwyd gan y Rheolwr fod rhaid sefydlu y gyllideb derfynnol erbyn diwedd Ionawr 2019. Bydd rhaid i'r Pwyllgor hwn argymhell cyllideb derfynol yn y cyfarfod hwn i'r Cyngor llawn a gynhelir 21 Ionawr 2019.

Atgoffwyd yr aelodau fod y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod 4 Hydref 2018 wedi rhybuddio'r Cyngor y bydd rhaid cynyddu'r praesept yn sylweddol yn 2019/20 oherwydd materion penodol sef-

- Arfarnu swydd y Rheolwr = £1,960
- Cyfraniad blynyddol y Cyngor at Gronfa Pensiwn LGPS y Rheolwr = £2,130
- Lwfansau Aelodau £900
- Costau Cyfieithu ychwanegol £470
- Chwyddiant = £470
- Datblygiadau a Chostau Eraill = £1,070

Dosbarthwyd copi o'r gyllideb ddiweddaraf gan y Rheolwr oedd yn cynnwys yr ymrwymadau uchod.

Crynodeb -

Gwariant Gross £59,850

Llai - Incwm Ffioedd a Grant (£4,850)

Llai - Defnydd o Balansau dim

**Gwariant Net £55,000** = y galw ar y trethdalwr- sef y "praesept"

Sefydlwyd cyllideb 2018-19 fel a ganlyn –

Gwariant Gross £56,390

Llai- Incwm Ffioedd a Grant (£3,860)

Llai Defnydd o Balansau (£4,530)

**Gwariant Net £48,000** = y galw ar y trethdalwr- sef y “praesept”

‘Mae’r cynnydd yn y praesept felly yn **£7,000** yn 2019-20. neu **14.6%**, yn golygu praesept o **£47.50 y flwyddyn ar eiddo Band C**

### **Datblygiadau**

Nodwyd nad oedd y gyllideb a gyflwynwyd yn cynnwys cyllideb ar gyfer Datblygiadau. Roedd y gyllideb hon y 2018-19 wedi ei ariannu o falansau un tro. Os oedd y Pwyllgor am argymhell cadw’r gyllideb hon ar yr un lefel a 2018-19 byddai rhaid cynyddu’r praesept o £55,000 i £59,000.

Bydd yr ymarferiad ymgysylltu gyda’r gymuned yn rhoi gwybod i’r Cyngor o anghenion y gymuned ond nid oes unrhyw ymrwymiad/addewid wedi ei wneud at 2019-20

### **Balansau**

Adolygiad trydydd chwarter yn awgrymu fod nad oes tanwariant eleni. Y Rheolwr o’r farn fod yna posibilrwydd y bydd yna danwariant posibl hyd at £2,000 erbyn diwedd y flwyddyn gan fod incwm claddu yn uwch na’r disgwyl. Yn ychwanegol mae disgwyl i cyfreithwyr Zurich (DAC Beachford) ad-enill y golled yswiriant o £2,500. Rhaid cofio fod gan y Cyngor £5,000 yn y fantolen wrth gefn

### **Pensiwn y Rheolwr**

Y gyllideb yn cynnwys amcangyfrif o 25% o gost cyflogaeth y Rheolwr. Nodwyd y bydd angen i’r Cyngor ystyried sefydlu cronfa benodol i’r dyfodol gan fod yna goblygiadau ariannol pellach ar y Cyngor uwchlaw’r cyfraniad misol.

### **Ffioedd Claddu**

Cynnydd yn y targed o £1,000 yn adlewyrchu tueddiadau incwm 2018-19.

### **Cae Pêl-droed y Fron**

Y gyllideb yn cynnwys £1,090 ar gyfer naw toriad yn 2019-20. Os fydd y cae yn trosglwyddo ar brydles I Grwb Datblygu’r Fron bydd y gyllideb hon ar gael

### **Toiled y Marine**

Y gyllideb yn cynnwys £4,000 ar gyfer cyfraniad i gadw’r toiled ar agor am y cyfnod 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020.

### **Biniau Halen**

Dim yn y gyllideb ar gyfer rhoi grit yn y biniau. Eglurodd GOJ fod llythyr y Cyngor Sir yn rhoi’r cyfrifoldeb ar y Cyngor hwn i sicrhau fod yna grit yn y biniau.

### **Sylwadau Aelodau –**

GOJ - o’r farn nad oes ymrwymiad yn 2019-20 ar gyfer Datblygiadau. Bydd yr ymarferiad ymgysylltu gyda’r gymuned yn rhoi gwybod i’r Cyngor o anghenion y gymuned ond nid oes unrhyw ymrwymiad/addewid wedi ei wneud at 2019-20

DCD - ydi’r gwariant un tro i’r Actiwari wedi ei gynnwys? Rheolwr -na, mae hwn wedi ei ymrwymo yng nghyllideb 2018-19.

EW - o’r farn fod cynnydd o £7,000 yn dderbyniol- ddim yn gost sylweddol ar y trigolion.

HJO – costau anorfod ydi’r cynnydd o £7,000. Yn gostau rhesymol.

AWJ - o'r farn fod y pwyllgor yn argymhell cyllideb gytbwys a rhesymol. Yn gwneud y sylw fod gan y Cyngor £5,000 wrth gefn mewn cronfa petai yna fater brys yn codi yn 2019-20

BW – o'r farn fod y gyllideb gerbron yn un rhesymol

**Argymhelliad i'r Cyngor.**

- i) Fod y Cyngor yn derbyn y gyllideb fel a'i cyflwynwyd gan y Rheolwr.*
- ii) Fod y Cyngor yn gosod praesept 2019-20 ar swm o £55,000, cynnydd o £7,000 neu 14.6% yn erbyn cyllideb 2018-19.*
- iii) Fod y Cyngor yn derbyn nad oes cyllideb ar gyfer "Datblygiadau" ond yn nodi fod unrhyw danwariant yng nghyllideb 2018-19 yn trosglwyddo i'r gyllideb "Datblygiadau" ar gyfer 2019-20.*

**Committee Recommendations.**

- i) For the Council to accept the budget as presented by the Manager*
- ii) For the Council to set the 2019-20 precept at £55,000, an increase of £7,000 or 14.6% against the 2018-19 precept.*
- iii) For the Council to accept that there is no provision in the budget for "Developments" but notes that any underspends in the 2018-19 budget is to be earmarked to the "Developments" budget in 2019-20*

|   |
|---|
| <b>Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 yr hwyr</b> |
|---|

|   |  |
|---|--|
| <b>Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -</b> |  |
|---|--|

|   |  |
|---|--|
| <b>Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor</b> |  |
|---|--|

|                  |  |
|------------------|--|
| <b>Dyddiad -</b> |  |
|------------------|--|